

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Dirybudd)

**Ysbyty Tywysog Philip,
Ward Bryngolau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda**

Dyddiad yr arolygiad:

19 - 21 Chwefror 2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	14
5.	Y Camau Nesaf.....	17
6.	Methodoleg	18
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Arolygiad Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o ward iechyd meddwl oedolion Bryngofal o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fin nos ar 19 Chwefror 2017, a'r diwrnodau canlynol sef 20 a 21 Chwefror 2017. Aethpwyd i ymweld â'r safleoedd a'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ysbyty Tywysog Philip, Ward Bryngolau, Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn
- Ysbyty Tywysog Philip, Ward Bryngolau, Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Oedolion (gweler adroddiad ar wahân)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), a dau adolygydd cymheiriaid clinigol (gydag un wedi'i ddewis fel adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg wrth fynd ati i arolygu gwasanaethau GIG ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Ward Bryngolau, Ysbyty Tywysog Philip yn darparu gwasanaethau gofal iechyd meddwl ar hyn o bryd yn ardal Llanelli, Cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae Ward Bryngolau yn dod o dan Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Pobl Hŷn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r ward ar gyfer y ddwy ryw, gyda 15 gwely yno. Yn ystod yr arolygiad, roedd 15 claf yno.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward. Yn ystod y cyfnod o gynnal yr arolygiad, roedd swydd rheolwr y ward wedi'i llenwi dros dro. Roedd nifer o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig yn rhan o dîm y ward, yn ogystal â sawl gweithiwr cymorth gofal iechyd.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Ward Bryngolau yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd ward sydd wedi'i datblygu'n dda i ddiwallu anghenion pobl hŷn sydd wedi cael diagnosis o salwch iechyd meddwl.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd amgylchedd y ward yn addas ar gyfer pobl sydd â dementia, ac yn cael ei gynnal i safon uchel
- Gwelsom staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, ac roeddynt yn gwneud pob ymdrech i gadw urddas y cleifion
- Roedd trefniadau addas yn eu lle ar gyfer asesu, monitro a diwallu anghenion maethol cleifion
- Siaradom â rhai o'r staff ac roeddynt yn hapus yn eu rolau. Nodwyd ganddynt eu bod yn teimlo fod eu cymheiriaid a'r rheolaeth yn eu cefnogi.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud newidiadau i'r amgylchedd er mwyn gwella preifatrwydd ac urddas cleifion
- Mae angen adolygu adnoddau staffio'r ward er mwyn ymateb i heriau'r ward
- Mae angen edrych ar sut y caiff meddyginiaethau oer eu storio a sut y gweinyddir Cyffuriau Rheoledig
- Dylai'r Bwrdd Iechyd arolygu cofnodion electronig ei gleifion a'i systemau hyfforddi er mwyn eu gwneud yn haws i ddefnyddwyr
- Mae angen gwella mynediad staff y ward i ddogfennau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Drwy gydol ein harolygiad, gwelsom staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd. Roedd staff yn gwneud pob ymdrech i gadw urddas y cleifion; fodd bynnag, mae angen gosod drysau addas i'r ystafelloedd ymolchi en-suite.

Roedd amgylchedd y ward yn addas ar gyfer pobl sydd â dementia, ac yn cael ei gynnal i safon uchel. Roedd gwybodaeth, arwyddion a chlociau yn addas ar gyfer y grŵp o gleifion.

Gofal gydag urddas

Safon 4.1 Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion.

Gwelsom fod cleifion yn yr ysbyty yn cael eu trin â pharch ac urddas gan y staff sy'n gweithio ar Ward Bryngolau, ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn nogfennau gofal y cleifion.

Roedd gan swyddfa'r ward *fwrdd cipolwg ar statws cleifion*¹ a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf unigol a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau yn eu lle er mwyn cuddio'r wybodaeth gyfrinachol pan na ddefnyddir y byrddau. Gwelsom fod staff yn defnyddio'r cyfleusterau hyn drwy gydol yr arolygiad.

Roedd gan gleifion eu hystafelloedd ymolchi eu hunain, gyda chyfleusterau en-suite â thŷ bach, sinc a chawod ynddynt. Roedd dodrefn addas yn ystafelloedd gwely'r cleifion, ac roedd digon o le ar gyfer y cleifion a'u heiddo

¹ Bwrdd sy'n cyfeirio staff yn gyflym at wybodaeth hanfodol am gleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

ym mhob un ohonynt. Roedd cleifion yn gallu mynd i'w hystafelloedd gwely yn ôl yr angen, a'u cloi; ond roedd staff yn gallu eu datgloi os oedd angen.

Fodd bynnag, yn dilyn asesiad risg eang gan y bwrdd iechyd, roedd holl ddrysau'r ystafelloedd en-suite wedi eu tynnu a gosodwyd llen gawod yn eu lle. Roedd hyn yn lleihau preifatrwydd y cleifion wrth ddefnyddio eu cyfleusterau en-suite. Dywedodd un o'r uwch-reolwyr wrthym fod y bwrdd iechyd yn ailystyried y risgiau cysylltiedig, ac y byddai'r drysau'n cael eu hail-osod ar y rhan fwyaf o'r cyfleusterau en-suite, gyda nifer o ystafelloedd ar gael i gleifion a allai fod mewn perygl o hunan-niweidio.

Roedd ystafelloedd ymolchi ar y ward at ddefnydd y cleifion; roedd digon o declynnau codi ynddynt i roi cymorth i gleifion pe bai angen.

Roedd y ward yn ddiogel rhag gadael i unrhyw un ddod i mewn heb ganiatâd. Roedd gan y drysau wydr clir arnynt, fel bod modd gweld y ward yn glir; fodd bynnag, gallai hyn gyfyngu ar breifatrwydd ac urddas y cleifion, yn enwedig pe baent yn ymddwyn heb swildod.

Clywsom staff yn siarad gyda chleifion mewn lleisiau addfwyn drwy gydol yr arolygiad. Gwelwyd hyn hefyd pan oedd aelodau o staff yn siarad â pherthnasau'r cleifion neu ymwelwyr. Gwelsom staff yn ymddwyn yn barchus tuag at gleifion, gan gynnwys rhyngweithio â nhw'n briodol ac yn brydlon mewn ymdrech i dawelu meddyliau'r cleifion, ac atal eu hymddygiad rhag gwaethygu.

Roedd modd i gleifion dreulio amser yn eu hystafelloedd gwely eu hunain neu yn yr ardaloedd cymunedol yn ôl eu dewis. Roedd ystafell fyw fawr, ystafell fyw lai â theledu ac ardaloedd tawel drwy'r ward, ac roedd digon o leodd eistedd addas. Roedd gan gleifion fynediad hefyd at ardd gaeedig a oedd yn braf ac yn addas ar gyfer y grŵp o gleifion.

Mae'r ward yn darparu gofal ar gyfer cleifion benywaidd a gwrywaidd sydd â diagnosis iechyd meddwl organig neu swyddogaethol, yn gyffredinol ar gyfer pobl dros 65 neu'n hŷn. Gwelsom fod grwpio cleifion gyda rhywiau cymysg, a gyda chleifion sydd â diagnosis gwahanol iddynt (hynny yw diagnosis iechyd meddwl organig neu swyddogaethol) yn effeithio ar ba mor ddiogel yr oedd rhai cleifion yn ei deimlo. Bu i ni edrych ar un claf a ddywedodd wrthym ei fod yn teimlo'n anniogel oherwydd sŵn cleifion eraill ar y ward. Fel y nodwyd uchod, er i ni weld tystiolaeth bod staff yn ceisio cysuro'r claf, roedd y ffaith bod cleifion yn cael eu grwpio'n gymysg yn achosi llawer o ofid i'r claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau addas ar yr ystafelloedd en-suite yn ystafelloedd gwely'r cleifion.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drysau'n darparu preifatrwydd ar y ward.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd cadw urddas y cleifion, a bod digon o staff ar gael gyda'r hyfforddiant priodol er mwyn diwallu anghenion amrywiaeth o gleifion yn y grŵp cymysg o gleifion presennol.

Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy, ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.

Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol

Wrth gyfathrebu gyda phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.

Drwy'r ward roedd ardaloedd lle'r oedd modd gweld yn glir wybodaeth ddiweddar am y cleifion. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos mewn fformat addas ar gyfer y grŵp o gleifion.

Roedd arwyddion y ward yn glir ac yn addas ar gyfer y grŵp o gleifion. Roedd yn galonogol bod y bwrdd iechyd wedi gwneud ymdrech fawr wrth wneud y ward yn addas i bobl sydd â dementia, gydag arwyddion darluniadol a lliwiau a fyddai'n helpu'r cleifion. Roedd clociau hefyd o gwmpas y ward ar gyfer y bobl sydd â dementia.

Drwy edrych ar y staff a'r cleifion yn rhyngweithio, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Roedd staff yn cymryd eu hamser wrth wneud penderfyniadau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i bob claf yn unigol. Pan oedd pethau'n parhau i fod yn aneglur i gleifion, neu eu bod wedi camddeall, byddai staff yn egluro'n amyneddgar eto'r hyn a ddywedasant.

Gofal amserol

Safon 5.1 Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir

Drwy gydol yr arolygiad, roedd y ward yn llawn, yn union fel yr oedd dwy ward arall lechyd Meddwl Pobl Hŷn y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym bod hyn yn sefyllfa barhaus ac yn digwydd yn aml. Roedd y bwrdd iechyd yn cyfarfod bob dydd i drafod a oedd yno welyau gwag o gwbl. Roeddynt hefyd yn trafod pa gleifion a oedd yn debygol o adael pa wardiau, ac unrhyw gleifion a fyddai'n cael eu derbyn o bosibl.

Roedd nifer o gleifion ar Ward Bryngolau a oedd yn cael eu hystyried fel cleifion Oedi Wrth Drosoglwyddo Gofal, ac yn aros am leoliadau mwy addas. Roedd rhai ohonynt nad oeddent wedi cael eu canfod hyd yma. Gall hyn achosi oedi wrth dderbyn cleifion sy'n aros am ofal cleifion mewnol.

Roedd yn amlwg bod y bwrdd iechyd yn ceisio diwallu anghenion gofal cleifion unigol gyda'r ddarpariaeth sydd ar gael i gleifion mewnol a'r hyn a ddarperir yn y gymuned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu nifer y gwelyau sydd ar gael a'r ddarpariaeth yn y gwasanaethau lechyd Meddwl ar gyfer Bobl Hŷn. Diben hyn fydd sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth mewn modd amserol.

Gofal Unigol

Safon 6.1 Cynllunio gofal i Hybu Annibyniaeth

Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol.

Roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar anghenion unigol er mwyn diwallu anghenion personol y cleifion, a'u helpu.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Roedd y dogfennau statudol sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cynnal yn wael ar y ward. Adolygwyd y papurau gwreiddiol dan Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn cadarnhau eu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Roedd gan y bwrdd Iechyd system dda o gofnodi'r cleifion yn electronig. Er hyn, nid oedd y dogfennau a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Gofal a Thriniaeth wedi'u cyflwyno i adran briodol y cofnod electronig. Yn ogystal, roedd llawer o gofnodion ysgrifenedig hefyd yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r system electronig. O ganlyniad i hyn roedd yn gymhleth ac yn cymryd amser i adolygu cynlluniau gofal y cleifion.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ar Ward Bryngolau; fodd bynnag, gellir gwneud gwelliannau wrth storio meddyginiaethau sydd angen eu storio mewn oergelloedd ac wrth weinyddu Cyffuriau Rheoledig.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer tri o'r cleifion ar Ward Bryngolau. Roedd yn anodd iawn dod o hyd i wybodaeth yn y cofnodion ar y ward er mwyn ein galluogi i wirio cyfreithlondeb cadw'r cleifion ac a oeddynt wedi dilyn y canllawiau yng Nghod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru 2016 (diwygiedig).

Gwelwyd bod rhannau o'r dogfennau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl ymhlith cofnodion clinigol eraill, nad oedd wedi cael eu rhoi yng nghofnodion unigol y cleifion.

Roedd Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn medru darparu'r holl ddogfennau statudol er mwyn i ni fod yn fodlon bod y gwasanaeth yn cadw cleifion yn unol â'r Ddeddf, ac yn cydymffurfio.

Daeth i'r amlwg bod y ward wedi bod yn wan wrth gadw cofnodion. Mae angen i'r bwrdd Iechyd adolygu'r ffordd y caiff dogfennau eu storio, a sut y gellir cael mynediad iddynt er mwyn i staff allu cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu storio'n briodol a'u bod ar gael i staff y ward.

Cynllunio gofal a darpariaeth – Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Gwnaethom adolygu pedair set o ddogfennau Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Roedd yr holl ddogfennau a adolygwyd gennym wedi'u cwblhau i safon broffesiynol iawn. Nodwyd yr arsylwadau canlynol:

- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau a'u diweddarau. Roeddynt yn cael eu diweddarau bob mis neu'n fwy rheolaidd os oedd angen.
- Roedd tystiolaeth o gynllunio ar gyfer gofal cleifion ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty
- Roeddynt yn cadw cofnod da o fonitro iechyd corfforol cleifion a hyrwyddo eu hiechyd
- Roedd cofnodion cleifion yn dangos yn glir pwy oedd perthynas agosaf y claf a phwy oedd yn cydlynu'r gofal.

Cadwyd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar gofnod electronig y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn cael eu cadw yn adran Gofal a Thriniaeth y cofnod electronig ond yn hytrach roeddynt yn cael eu cadw yn yr un adran â'r wybodaeth glinigol.

Yn ogystal, roedd arsylwadau corfforol fel pwysau, BMI a faint o faeth yr oedd cleifion yn ei dderbyn yn cael eu cofnodi ar bapur. O ganlyniad, ni chadwyd holl wybodaeth y cleifion mewn un lle.

Oherwydd hyn, roedd yn gymhleth ac yn cymryd amser i adolygu gofal y cleifion dros nifer o systemau. Byddai'n fuddiol i'r staff allu cael mynediad at wybodaeth berthnasol y cleifion mewn adran benodol yng nghofnod electronig y cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd leihau eu defnydd o storio gwybodaeth y cleifion ar bapur mewn ffeiliau a chynyddu'r defnydd o gofnodion electronig cleifion.

Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau, a dadhalogi

Mae angen i gamau atal heintiau fod yn gyfrifoldeb i bawb a rhaid iddynt fod

yn rhan o arfer bob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac y gellir eu hatal

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi staff cadw tŷ ymroddgar; roedd pob ardal o Ward Bryngolau yn lân drwy gydol yr arolygiad. Roedd yr ardaloedd cymunedol, ystafelloedd ymolchi, cawodydd a'r tai bach yn lân, yn daclus ac nid oedd annibendod ynddynt.

Safon 2.5 Maeth a Hydradu

Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion hydradu a maethu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf.

Roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu a'u cofnodi ar y ward gan ddefnyddio dogfennau Maeth Cymru Gyfan.

Rhodddwyd dewis o brydau bwyd i'r cleifion, gan gynnwys opsiwn i lysieuwyr. Rhodddwyd gwybod i ni fod rheolwr dros dro'r ward wedi gweithio gyda dietegwr er mwyn darparu bwydlen addas i'r cleifion. Roedd pupur a halen hefyd ar gael i'r cleifion. Darparwyd hefyd ystod o fyrbrydau a ffrwythau i'r cleifion ar y ward.

Buom yn arsylwi ar amseroedd bwyd y ward, ac roedd staff yn ymolchi'u dwylo cyn ymgymryd â'u dyletswyddau; rhodddwyd y cyfle hefyd i gleifion fynd i ymolchi eu dwylo cyn bwyta. Gwelsom fod y cleifion yn cael y cymorth priodol a oedd yn addas i'w hanghenion unigol. Pan oedd angen, rhodddwyd ffedogau addas i gleifion er mwyn diogelu eu dillad rhag bwyd.

Standard 2.6 Rheoli Meddyginiaethau

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir.

Roedd yr ystafelloedd clinig dan glo ac wedi'u trefnu, yn lân ac yn daclus. Roedd yr holl feddyginiaethau wedi'u storio'n ddiogel, ac roedd y feddyginiaeth a wiriwyd gennym yn iawn hyd yma. Yn ôl yr hyn a welwyd gennym roedd y cyflenwad yn cael ei lywodraethu a'i reoli'n dda.

Roedd trolïau'r meddyginiaethau wedi eu cloi'n ddiogel yn yr ystafelloedd clinig. Roedd yr holl gypyrddau ar gyfer storio meddyginiaethau wedi'u cloi'n briodol i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel.

Roedd yn amlwg bod gan y bwrdd iechyd broses ar gyfer monitro tymheredd oergell y clinig er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir yn ôl y gwneuthurwyr. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg ar ôl adolygu'r cofnodion nad oedd staff wedi bod yn gwneud hyn yn rheolaidd. Gwelsom mai dim ond un cofnod o'r tymheredd a wnaethpwyd dros gyfnod o fis.

Roedd Cyffuriau Rheoledig yn cael eu storio'n briodol yn yr ystafell clinig. Yn ystod sifft y nos, gwelsom fod y nyrs cofrestredig a'r gweithiwr cymorth gofal iechyd yn arwyddo ar gyfer y Cyffuriau Rheoledig. Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi ar gyfer gwneud hyn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr un gweithiwr cymorth gofal iechyd wedi cwblhau'r broses ddatblygu cymhwysedd er mwyn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd. Wrth roi adborth i'r arolygiad, rhoddwyd sicrwydd i ni gan y bwrdd iechyd y byddant yn cwblhau'r broses er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi.

Cytunir ar ddefnyddio unrhyw feddyginiaeth gudd fel tîm amlddisgyblaethol, ac roedd y cofnodion yn dangos bod y teulu wedi bod yn rhan o'r broses o benderfynu gwneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi tymheredd oergell y meddyginiaethau, er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd cywir.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cwblhau'r broses ddatblygu cymhwysedd sydd ei hangen er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cyffuriau Rheoledig y bwrdd iechyd.

Safon 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at bolisi cyfredol y bwrdd iechyd ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, ynghyd â gwybodaeth sylweddol o'r polisi.

Gofal effeithiol

Safon 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Gwelsom fod y gofal a'r driniaeth yn cael eu cyflawni yn unol â chanllawiau cadarn a chanllawiau cenedlaethol a phroffesiynol perthnasol. Roedd y dogfennau polisi perthnasol yn cyfeirio at hyn, ac yn cefnogi'r staff yn eu gwaith.

Sefydlodd y bwrdd iechyd systemau ar gyfer adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau'n rheolaidd, neu pan oedd angen newid. O ganlyniad i hyn, roedd gan staff fynediad at y canllawiau diweddaraf er mwyn eu helpu i ofalu am eu cleifion.

Cofnodwyd digwyddiadau gan ddefnyddio system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Roedd hyn yn darparu llywodraethiant ar fonitro ac yn adolygu digwyddiadau ar ward Bryngolau.

Safon 3.5 Cadw Cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol.

Storiwyd cofnodion yn ddiogel er mwyn atal unrhyw un heb ganiatâd rhag cael mynediad iddynt a'u darllen. Roedd cofnodion y cleifion wedi'u cwblhau i safon uchel iawn, roeddynt wedi'u diweddarau ac yn gyfoes.

Roedd cofnodion yn cael eu hychwanegu at ffeiliau'r cleifion yn gyson drwy'r dydd. Roeddynt yn fanwl fel bod modd deall diwrnod y claf yn glir o ran eu gweithgareddau a sut yr oeddynt wedi'u cyflwyno'u hunain.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, ni chofnodwyd yn amserol y dogfennau sy'n ymwneud â'r Ddeddf na gwybodaeth glinigol ysgrifenedig a dderbyniwyd gan y ward yn ffeiliau'r cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn Ward Bryngolau. Roedd tîm ymroddedig o staff a oedd yn ymddangos fel petaent â dealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion.

Roedd tîm amlddisgyblaethol cryf yn gweithio gyda staff ac roeddynt yn gefnogol o'i gilydd. Nodwyd ganddynt eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu parchu gan aelodau eraill o staff.

Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn ystyried sut y gellir sefydlu gweithlu sy'n gytbwys o ran y rhywiau ar Ward Bryngolau. Rydym hefyd am iddynt ystyried sut y gellir cefnogi'r sifft nos yn ystod y cyfnod mwyaf prysur.

Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Safonau Iechyd a Gofal Rhan 2 – Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd a gynigir, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd yn galonogol gweld drwy gydol yr arolygiad bod y staff ar Ward Bryngolau yn barod i dderbyn ein barn, canfyddiadau ac argymhellion.

Gwelsom llywodraethiant ac arweinyddiaeth dda iawn ar y ward gan y rheolwr dros dro a dirprwy reolwr y ward. Roedd gan y ward ymgynghorydd newydd a oedd yn arwain y ward yn gadarnhaol. Roedd gan y ward hefyd fewnbwn gan seicolegydd 5 diwrnod yr wythnos.

Siaradom â rhai o'r staff, ac roeddynt yn sgwrsio'n gadarnhaol am weithio fel tîm amlddisgyblaethol. Dywedodd staff wrthym fod y tîm amlddisgyblaethol yn cydweithio'n broffesiynol, a bod safbwyntiau unigolion yn cael eu casglu a'u gwerthfawrogi.

Roedd gan Ward Bryngolau gysylltiadau da gydag adrannau iechyd corfforol yn Ysbyty Tywysog Philip a'r bwrdd iechyd yn ehangach.

Roedd cefnogaeth glir i staff y ward gan yr uwch-reolwyr; ac roedd Rheolwr y Gwasanaeth yn aml ar lawr y ward er mwyn darparu canllawiau i reolwyr y ward.

Roedd rheolwyr y ward ar gyfer gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn y Bwrdd Iechyd yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod unrhyw broblemau neu ddatblygiadau newydd.

Staff ac adnoddau

Safon 7.1 Y Gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion.

Roedd gan Ward Bryngolau reolwr dros dro ar y ward, a gefnogwyd gan ddirprwy reolwyr a thîm sefydlog o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Roedd gan y ward dîm penodol o staff a oedd â dealltwriaeth dda o'r grŵp o gleifion a sgiliau addas er mwyn darparu gofal iddynt. Roedd gan y ward therapyddion galwedigaethol a thechnegydd therapi galwedigaeth, ac roeddynt yn cynnig gweithgareddau addas i'r grŵp o gleifion. Roedd amrywiaeth dda o fyrddau synhwyro ar waliau'r ward, ac roedd gan y cleifion fynediad at focsys chwilio.

Roedd y ward wedi llenwi'r holl swyddi gwag, ac felly roedd gweithlu cyson yno. Dywedwyd wrthym fod Ward Bryngolau wedi meithrin perthynas dda gyda'r brifysgol leol, a gwelsom fod dau fyfyrwr yn gweithio yno fel nyrsys ar leoliad.

Bu i'r bwrdd iechyd gwblhau gwiriadau o gymwysterau proffesiynol a gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS) wrth benodi staff. Roedd hyn yn rhoi dilysrwydd i'r cymwysterau ac yn helpu wrth ein sicrhau bod y bobl a oedd yn cael eu cyflogi yn onest.

Dywedodd staff eu bod yn teimlo bod prinder staff gwrywaidd yn gweithio ar Ward Bryngolau, er mwyn darparu gofal addas i'r ddwy ryw. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gallant sefydlu gweithlu sy'n gytbwys o ran y rhywiau ar gyfer Bryngolau.

Roedd sifft nos Ward Bryngolau yn dechrau am 9:30pm. Fel arfer, roedd gan y ward dri aelod o staff yn ystod y sifft. Yn ystod yr oriau cyntaf, roedd llawer o dasgau gan yr aelodau o staff, gan gynnwys helpu'r cleifion i fynd i'r gwely a rhoi meddyginiaeth iddynt. Wrth i ni oruchwylio'r noson gyntaf, roedd yn amlwg bod staff yn brysur iawn, a byddai cael adnoddau ychwanegol wedi bod o fudd iddynt. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i gefnogi'r sifft nos yn ystod y cyfnod mwyaf prysur.

Wrth siarad â staff, cadarnhawyd eu bod yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant. Adolygwyd system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd o fonitro cyfraddau cwblhau'r hyfforddiant, ac roedd yn amlwg bod y cyfraddau hyn yn uchel. Fodd bynnag, roedd yn anodd gweithio'r system ac adnabod pa fodiwlau hyfforddi a oedd yn hanfodol ac yn berthnasol i aelodau unigol o staff.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system hyfforddi gyfrifiadurol sydd ganddynt er mwyn gwella pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio. Diben hyn fydd sicrhau bod rheolwyr y ward yn gallu monitro'n hawdd gydymffurfiaeth eu staff â'r hyfforddiant gorfodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sefydlu gweithlu sy'n gytbwys o ran y rhywiau ar Ward Bryngolau.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried sut i gefnogi'r sifft nos yn ystod y cyfnod mwyaf prysur.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r system hyfforddi gyfrifiadurol er mwyn i reolwyr y ward allu monitro'n hawdd gydymffurfiaeth staff â'r hyfforddiant gorfodol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â phrif ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Ward Bryngolau yn mynd i'r afael â'r prif ganfyddiadau a nodwyd, gan nodi amserlen hefyd.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu eu bod ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, er mwyn cadarnhau pryd fyddant wedi mynd i'r afael â nhw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Lle bo'n briodol, mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal 2015

Ffigur 1



Gwneir arolygiadau iechyd meddwl yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd ar dair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â'r cleifion (rhieni a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r cleifion sydd yn y ganolfan wrth wraidd y dull a ddefnyddiwn i gynnal yr arolygiad.
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaeth yn cyflenwi gofal o safon uchel, ddiogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y person

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain ac a yw diwylliant y gwasanaeth yn darparu gofal diogelwch ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae'r gwasanaethau'n rheoli ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal ac ymarfer y gofal
- Sgyrsiau â'r uwch-reolwyr sydd ar fwrdd y cyfarwyddwyr
- Arolygiad o sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau penodol sy'n sail i ofal y cleifion
- Ystyriaeth o'r prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd sydd yn eu lle.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu cael. Gallant hefyd dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir, yn ogystal â'r ffordd y mae'r gwasanaeth gofal yn ystyried gofal ac urddas hanfodol y cleifion.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Caiff y canfyddiadau hyn (os oes rhai) eu nodi yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Iechyd Meddwl:

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Ysbyty Tywysog Philip, Ward Bryngolau

Dyddiad yr arolygiad:

19 – 21 Chwefror 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safonau	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau addas ar yr ystafelloedd en-suite yn ystafelloedd gwely'r cleifion.	4.1	<p>Cwblhawyd archwiliad yn 2016 (<i>Point of Ligation Audit</i>) i edrych ar y gwaith adeiladu cyfalaf sydd angen ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch.</p> <p>Bydd cydweithwyr o'r adran ystadau yn ailasesu'r costau sydd ynghlwm ag ailosod drysau'r ystafelloedd ymolchi yn unol â'r safon diogelwch priodol.</p> <p>Cerdded o gwmpas gyda chydweithwyr o'r adran ystadau,</p>	Rheolwr y Ward / Rheolwr y Gwasanaeth, Swyddfa Ystadau	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>30 Ebrill 2017</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safonau	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			rheolwr y ward, a chyflwyno cais diwygiedig er mwyn ailosod y drysau.		
6	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau'r ward yn rhoi preifatrwydd i'r ward.	4.1	Caiff sgriniau diogelu urddas eu hychwanegu at ddrysau'r ward.	Rheolwr y Ward	30 Ebrill 2017
7	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr eu bod yn cadw urddas y cleifion a bod digon o staff gyda'r hyfforddiant priodol ar gael i ddiwallu anghenion y cleifion presennol sydd yn y grŵp cymysg o gleifion.	4.1	<p>Mae prosiect Craffu Cymru Gyfan yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod digon o staff yn eu lle. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu unrhyw argymhellion o'r prosiect hwn.</p> <p>Ar y ward ar hyn o bryd, maent yn ymatebol iawn i anghenion y claf, ac mae'r lefelau staffio yn sicrhau bob amser bod y gofal a ddarperir ganddynt yn rhoi urddas i'r claf.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
9	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r nifer o welyau sydd ganddynt, a darpariaeth y gwasanaethau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn a gynigir ganddynt.	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Caiff safle'r Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal ei monitro'n ddyddiol. Yn ddiweddar, mae oedi wedi bod wrth briodoli'r cytundebau sy'n ymwneud ag	Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safonau	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>ariannu'r lleoliadau ar gyfer Henoed Bregus Eu Meddwl.</p> <p>Mae hyn bellach wedi'i ddatrys, ac mae system yn ei lle ar gyfer cytuno ar ariannu. Rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar yr Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal.</p> <p>Pan fod unrhyw asesiad Deddf Iechyd Meddwl yn adnabod yr angen am wely newydd, bodlonir yr angen hwn.</p>		
12	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi tymheredd oergell y feddyginaeth er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.	2.6	Gweithredwyd proses wedi'i diweddarau, ac mae staff yn ei chwblhau bob dydd.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
12	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cwblhau'r broses ddatblygu cymhwysedd sydd ei hangen arnynt er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cyffuriau Rheoledig y bwrdd iechyd.	2.6	<p>Mae Dysgu a Datblygu yn cynnig 10 lle ar raglen hyfforddi i weithwyr cymorth gofal iechyd, er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer bod yr ail lofnodwr ar y Gofrestr Cyffuriau Rheoledig.</p> <p>Mae mesur dros dro wedi'i roi yn ei</p>	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safonau	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			le er mwyn gwneud yn siŵr bod dwy nyrs ar gael o hyd wrth weinyddu Cyffuriau Rheoledig.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
16	Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu gweithlu sy'n gytbwys o ran y rhywiau ar Ward Bryngolau.	7.1	<p>Rydym yn cydnabod y byddai gweithlu sy'n gytbwys o ran y rhywiau o fudd i'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae rhaniad 80/20, a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod dyn ar bob sifft.</p> <p>Mae gan yr holl staff yr un lefel o hyfforddiant wrth reoli cleifion.</p> <p>Byddwn o hyd yn ystyried cydbwysedd rhwng y rhywiau wrth gyflogi pobl ar gyfer swyddi newydd ar y ward.</p>	Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd
16	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i gefnogi'r sifft nos yn ystod y cyfnod fwyaf prysur.	7.1	Mae Prosiect Craffu Cymru Gyfan yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod digon o staff yn eu lle, ac mae'r ward yn ymatebol iawn i anghenion y claf. Mae'r lefelau	Rheolwr y Gwasanaeth	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safonau	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>staffio yn sicrhau bob amser bod y gofal a ddarperir ganddynt yn rhoi urddas i'r claf.</p> <p>Mae mesur dros dro wedi'i roi yn ei le er mwyn gwneud yn siŵr bod dwy/dau nyrs ar gael o hyd wrth weinyddu Cyffuriau Rheoledig.</p>		
16	Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r system hyfforddi gyfrifiadurol sydd ganddynt er mwyn i reolwyr y ward fonitro'n hawdd gydymffurfiaeth eu staff â'r hyfforddiant gorfodol.	7.1	Mae Bwrdd Cyfarwyddwr y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu matrices er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn gallu monitro gofynion hyfforddiant gorfodol y staff yn well.	Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

.....

Teitl:

.....

Dyddiad:

.....